# Y Pwyllgor Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd Llawr, Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 9 Rhagfyr 2014** |
| Amser: | **08.30 - 08.37** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion: Preifat

Aelodau'r Pwyllgor:

**Y Fonesig Rosemary Butler (Cadeirydd)**
**Paul Davies**
**Jane Hutt**
**Elin Jones**
**Aled Roberts**

Staff y Pwyllgor:

**Aled Elwyn Jones (Clerc)**

Eraill yn bresennol:

**David Melding AC, Y Dirprwy Lywydd**
**Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth**
**Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau**
**Craig Stephenson, Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau'r Comisiwn**
**Peter Greening, Llywodraeth Cymru**

## 1 Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Nododd y Pwyllgor y cofnodion ar gyfer eu cyhoeddi.

## 3 Trefn busnes

3.1 Busnes yr wythnos hon

Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio ddydd Mawrth ar ôl yr eitem olaf o fusnes. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid cynnal y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer ddydd Mercher.

3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn y busnes a chytunodd i amserlennu'r eitemau a ganlyn:

**Dydd Mercher 28 Ionawr 2015**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (15 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)

## 4 Deddfwriaeth

4.1 Y Bil Llywodraeth Leol (Cymru)

Cytunodd Rheolwyr Busnes o ran egwyddor i gyfeirio'r Bil Llywodraeth Leol (Cymru) at y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar gyfer ystyriaeth yng Nghyfnod 1.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ohirio penderfyniad ar amserlen y Bil fel y gellir ymgynghori â'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol.

## 5 Y Rheolau Sefydlog

5.1 Cynigion i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog mewn perthynas â Chofrestru a Datgan Buddiannau Aelodau ac Aelodaeth y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Ystyriodd y Rheolwyr Busnes newidiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog er mwyn rhoi argymhellion adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad mewn perthynas â Chofrestru a Datgan Buddiannau Aelodau ac Aelodaeth y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ar waith.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ymgynghori â'u grwpiau ar y cynigion ac i drafod y mater ymhellach yng nghyfarfod y Pwyllgor Busnes ar 20 Ionawr 2015.

**UNRHYW FATER ARALL**

Cadarnhaodd y Rheolwyr Busnes eu bod yn fodlon â fformat Cwestiynau'r Llefarwyr sydd wedi bod ar waith ers dechrau tymor yr hydref 2014.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes y dylai'r ddadl nesaf gan Aelod unigol gael ei chynnal ddydd Mercher 11 Mawrth, 2015.